# Egwyddorion Amserlennu GIG Cymru: Nyrsio

*Datblygwyd gan: Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Llywodraeth Cymru; Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan, Perfformiad a Gwella GIG Cymru; a* Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru *ar gais y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd*

Fersiwn Derfynol Wedi'i Chymeradwyo gan y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd Mawrth 2026

**Cynnwys**

Crynodeb Gweithredol ........ 3
Diben, Cwmpas a Chyd-destun Strategol ........ 4
Monitro a Sicrwydd ........ 5
Egwyddorion Amserlennu Cenedlaethol ........ 5
1. Diffiniadau’r Gweithlu a’u Cymhwyso ........ 5
2. Aciwtedd Cleifion Digidol a Barn Broffesiynol ........ 6
3. Cymysgedd Sgiliau, Cymhwysedd, a Thegwch Dwyieithog ........ 7
4. Lleoli'r Gweithlu: Hyblygrwydd, Cydraddoldeb, a Rheoleiddio ........ 8
5. Llywodraethu a Goruchwylio ........ 9
6. Proses Gyhoeddi: Cymeradwyaeth ac Uniondeb y Gyflogres ........ 10
Casgliad ........ 11
Cydnabyddiaethau ........ 12

## Crynodeb Gweithredol

Mae Egwyddorion Amserlennu GIG Cymru yn darparu fframwaith unedig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer nyrsio. Wedi'u datblygu mewn ymateb i amrywiad a nodwyd trwy ddadansoddiad cymharol o Bolisïau Amserlennu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau presennol, nod yr egwyddorion hyn yw safoni arfer, hyrwyddo tegwch a chryfhau sicrwydd. Gan ychwanegu at ganfyddiadau'r *Dadansoddiad Cymharol o Bolisïau Amserlennu Byrddau Iechyd,* maent yn cyd-fynd â gofynion statudol gan gynnwys Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016, Rheoliadau Amser Gwaith 1998, egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus, Polisi Gweithio Hyblyg GIG Cymru Gyfan (2025) a Fframwaith Rheoli Cymru Gyfan ar gyfer Capasiti Gweithlu Hyblyg (WHC/2023/046).

Mae darparu gofal diogel o ansawdd uchel yn dibynnu ar sicrhau bod digon o Nyrsys Cofrestredig yn gweithio ar bob shifft. Mae tystiolaeth yn dangos yn gyson bod lefelau staffio a chymysgedd sgiliau priodol ar gyfer nyrsys cofrestredig yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ganlyniadau cleifion, dangosyddion diogelwch a llesiant staff. Mae'r egwyddorion hyn yn cadarnhau'r gofyniad am gydbwysedd priodol o Nyrsys Cofrestredig a staff cymorth ar bob shifft, ac mae data aciwtedd, barn broffesiynol a disgwyliadau sy'n gyson yn genedlaethol yn sail i hyn.

Mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi Nod Triphlyg Cymru drwy wella iechyd y boblogaeth drwy staffio diogel, gwella profiad y claf drwy ddarparu gofal rhagweladwy a theg, a sicrhau cynaliadwyedd drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae sefydliadau GIG Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau amserlennu'n ddiogel, yn deg, ac yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol a gofynion statudol. Felly, rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau sicrhau bod polisïau, systemau ac arferion lleol ar gyfer amserlennu'n cyd-fynd â'r egwyddorion cenedlaethol hyn, a bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i oruchwylio cynllunio, monitro a sicrwydd amserlennu. Mae hyn yn cynnwys cefnogi arweinwyr clinigol a rheolwyr y broses amserlennu gyda'r offer, y data a'r hyfforddiant sydd eu hangen i ddatblygu amserlenni effeithiol, sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau, ac adolygu canlyniadau'r broses amserlennu'n rheolaidd er mwyn cynnal lefelau staffio diogel a llesiant y gweithlu.

Bydd mabwysiadu'r egwyddorion yn gyson yn sicrhau bod arferion amserlennu ar draws GIG Cymru yn safonol, yn dryloyw, ac yn cyd-fynd â disgwyliadau cenedlaethol. Bydd dull unedig yn sail i drefnau darparu gofal mwy diogel a theg, yn gwneud y mwyaf o'r gweithlu parhaol, ac yn gwella profiad cyffredinol staff a chleifion ar draws pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth (ac eithrio Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru).

Mae'r egwyddorion hyn yn darparu fframwaith cenedlaethol clir ar gyfer sut y dylid llunio, llywodraethu a gwerthuso amserlenni ar draws GIG Cymru, gan gefnogi darpariaeth weithredol ac atebolrwydd sefydliadol ar gyfer trefnau staffio diogel.

Mae'r egwyddorion amserlennu hyn wedi'u datblygu'n bennaf i gefnogi arfer amserlennu nyrsys. Er eu bod wedi'u cynllunio ar gyfer nyrsio, gall grwpiau staff eraill gymhwyso neu addasu'r egwyddorion hefyd i gefnogi cysondeb gwell wrth amserlennu a lleoli'r gweithlu.

## Cyflwyniad

Mae amserlennu effeithiol yn sail i ddarparu gofal iechyd diogel, o ansawdd uchel a chynaliadwy, gan sicrhau bod staff sydd â'r sgiliau priodol ar gael yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae amserlennu’n ganolog i ddiogelwch cleifion, llesiant staff, a defnydd effeithlon a theg o adnoddau. Mae amrywiad mewn arfer wedi effeithio ar sicrwydd a rheolaeth ariannol. Mae'r egwyddorion hyn yn sefydlu safon genedlaethol o ran lleihau amrywiad, cyd-fynd â deddfwriaeth, a chefnogi gofal iechyd seiliedig ar werth.

Mae e-Amserlennu yn alluogwr hanfodol ar gyfer lleoli’r gweithlu yn ddiogel, yn effeithlon ac yn deg. Mae'n darparu gwelededd amser real o ran staffio, yn cefnogi cydymffurfedd â deddfwriaeth, ac yn sail i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata. Mae ei fabwysiadu ledled Cymru yn sicrhau cysondeb, tryloywder, a'r gallu i ddadansoddi patrymau amserlennu o un shifft i’r llall, o ddydd i ddydd, ac o fis i fis. Mae'r gallu hwn yn cryfhau sicrwydd, yn gwneud y mwyaf o ddefnyddio adnoddau, yn gwella profiad ac yn sbarduno newid diwylliannol drwy wreiddio cynllunio’r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae sefydliadau GIG Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau amserlennu’n ddiogel, yn deg ac yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol a gofynion statudol. Felly, rhaid i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau sicrhau bod polisïau, systemau ac arferion amserlennu’n cyd-fynd â'r egwyddorion cenedlaethol hyn, ac wedi'u cefnogi gan drefniadau llywodraethu cadarn i oruchwylio cynllunio, monitro a sicrwydd amserlenni. Mae hyn yn cynnwys cefnogi arweinwyr clinigol a rheolwyr amserlennu gyda'r offer, y data a'r hyfforddiant priodol sydd eu hangen i ddatblygu amserlenni effeithiol, sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau, ac adolygu canlyniadau amserlennu’n rheolaidd i gynnal lefelau staffio diogel a llesiant y gweithlu.

Mae gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau hefyd rwymedigaeth i daro'r cydbwysedd iawn rhwng diogelwch cleifion, cost ac effeithlonrwydd gweithredol. Pan gânt eu defnyddio'n effeithiol, gall systemau e-Amserlennu gefnogi'r cydbwysedd hwn drwy ddarparu goruchwyliaeth amser real o leoli'r gweithlu ar draws sefydliadau. Mae e-Amserlennu’n cynnig gwelededd nid yn unig o fis i fis ond o ddydd i ddydd, gan alluogi sefydliadau i nodi meysydd o bwysau neu amrywiad ac ymyrryd yn brydlon i sicrhau lefelau staff nyrsio priodol a defnydd effeithlon o staff. Wrth wneud hynny, gall gefnogi newid diwylliannol drwy roi’r dystiolaeth sydd ei hangen ar staff ac arweinwyr i lywio penderfyniadau a sbarduno gwelliannau ar y rheng flaen.

## Diben, Cwmpas a Chyd-destun Strategol

Wedi'u comisiynu gan y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd, mae'r egwyddorion hyn yn ymateb i amrywiad mewn diffiniadau cynnydd, integreiddio aciwtedd, llywodraethu a goruchwyliaeth ariannol. Wedi'u datblygu ar y cyd gan Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan, a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, maent yn adlewyrchu arferion gorau a gofynion deddfwriaethol. Mae mewnbwn gan Fforwm Partneriaeth Cymru wedi cael ei groesawu. Bydd gwaith ategol yn

gwreiddio safonau cenedlaethol pendant ar gyfer cynnydd a hyblygrwydd.

Er bydd y fframwaith yn canolbwyntio gyntaf ar nyrsio, gallai ehangu'n gyflym a bod yn hyblyg ar gyfer grwpiau proffesiynol eraill sy'n ceisio cryfhau sicrwydd, tegwch ac effeithlonrwydd mewn arfer amserlennu.

## Monitro a Sicrwydd

Er mwyn cefnogi'r egwyddorion hyn, bydd metrigau allweddol ar gyfer amserlennu yn cael eu monitro'n ganolog drwy Berfformiad a Gwella GIG Cymru drwy ddangosfwrdd e-Amserlennu cenedlaethol unwaith y bydd y gallu hwn wedi'i ddatblygu a'i roi ar waith, o fis Ionawr 2026.

Bydd y dangosfwrdd yn cael ei ddatblygu ar ddechrau contract e-Amserlennu GIG Cymru a bydd yn rhoi cipolwg tryloyw ar ddefnyddio amserlenni, a chydymffurfedd â nhw. Pan fydd ar gael, bydd yn galluogi meincnodi a sicrwydd cyson ar draws GIG Cymru.

## Egwyddorion Amserlennu Cenedlaethol

### 1. Diffiniadau’r Gweithlu a’u Cymhwyso

Egwyddor: Diffiniadau safonol cenedlaethol ar gyfer hyblygrwydd, cynnydd, a chymysgedd sgiliau

Mae rheoli diffyg argaeledd staff yn effeithiol yn elfen hanfodol o sicrhau bod lefelau staff nyrsio priodol yn cael eu hariannu a'u defnyddio mewn lleoliadau gofal. Felly, mae'n bwysig bod dealltwriaeth o brosesau ac iaith yn gyson ar draws yr holl wasanaethau.

Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol:

- **Hyblygrwydd:** Canran y capasiti sydd ei angen i gyflenwi yn ystod cyfnodau o ddiffyg argaeledd staff ar gyfer dyletswyddau wedi’u hamserlennu. Y prif resymau dros y diffyg argaeledd hwn yw gwyliau blynyddol, gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc, absenoldeb oherwydd salwch, hyfforddiant statudol a gorfodol, absenoldeb astudio, absenoldeb arbennig ac absenoldeb mamolaeth/tadolaeth.
- **Cynnydd:** Y ganran wedi'i haddasu, wirioneddol o staff cyfwerth ag amser llawn ychwanegol y mae'n rhaid eu hariannu i gwrdd â'r bwlch hyblyg yn ddigonol. Mae'r cyfrifiad hwn yn ystyried effaith gyfansawdd staff y mae’u cyflog wedi cynyddu hefyd yn cynrychioli'r un faint o anargaeledd rhagweladwy.
- **Cymysgedd Sgiliau:** Y cydbwysedd o rolau, bandiau cyflog, profiad a chymwyseddau sydd eu hangen i ddarparu gofal diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid i'r cymysgedd sgiliau fod yn unol ag aciwtedd cleifion ac anghenion gwasanaethau.

Mae canllawiau statudol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn cymeradwyo *cynnydd* o 26.9% i'w gymhwyso i'r gweithlu nyrsio mewn lleoliadau gofal y mae adran 25B o'r Ddeddf yn berthnasol iddynt. Roedd y cyfrifiad hwn o gynnydd o 26.9% yn seiliedig ar fwlch *hyblyg* cyfartalog o 21.15%.

Dylid ystyried cynnydd fel gofyniad lleiaf yn hytrach nag fel uchafswm.

Efallai y bydd angen cynnydd uwch ar sefydliadau i ddiwallu gofynion penodol am wasanaethau, nodweddion y gweithlu, neu batrymau absenoldeb wedi'i gynllunio/heb ei gynllunio. Felly rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod cynnydd yn cael ei gymhwyso i sefydliadau fel llinell sylfaen, gydag adolygiad lleol yn penderfynu a oes angen darpariaeth ychwanegol.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae terminoleg gyson yn sicrhau eglurder wrth gynllunio'r gweithlu ac adroddiadau ariannol, gan leihau camddealltwriaeth a galluogi sicrwydd cadarn ar draws GIG Cymru.

## 2. Aciwtedd Cleifion Digidol a Barn Broffesiynol

**Egwyddor: Rhaid i'r broses amserlennu gael ei llywio gan wybodaeth aciwtedd cleifion amser real er mwyn sicrhau bod lefelau staffio yn adlewyrchu anghenion cleifion yn barhaus ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau diogel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.**

Mae systemau digidol yn ffordd werthfawr o gofnodi anghenion cleifion mewn amser real a'u troi'n benderfyniadau staffio y gellir gweithredu arnynt. Mae offer fel SafeCare neu CIVICA Scheduling yn galluogi gwasanaethau clinigol i gofnodi a monitro data aciwtedd, ymateb yn gyflym i feysydd sy'n peri pryder, a sicrhau bod staffio'n adlewyrchu'r galw clinigol yn hytrach na rhagdybiaethau. Er nad oes gan bob maes clinigol fynediad at y systemau hyn ar hyn o bryd, mae eu defnydd yn cynrychioli arferion gorau a dylid ei gefnogi i ddatblygu dangosfyrddau lleol sy'n cyflwyno ac yn triongli aciwtedd cleifion, digwyddiadau rhybudd, a threfniadau staffio mewn modd clir. Mae dangosfyrddau sydd wedi'u cynllunio'n dda yn grymuso rheolwyr a thimau i wneud penderfyniadau prydlon, yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gryfhau tryloywder, a meithrin hyder yn y ffordd y mae data yn llywio trefnau lleoli'r gweithlu ac yn sicrhau diogelwch cleifion.

Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl o ran amserlennu yn seiliedig ar ddata, dylai Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau flaenoriaethu cyflwyno SafeCare (neu system gyfatebol) heb oedi i feysydd clinigol lle mae'n ychwanegu gwerth. Bydd ymestyn ei ddefnydd y tu hwnt i leoliadau wedi'u cymeradwyo yn helpu i sicrhau bod barn broffesiynol wrth wraidd anghenion cleifion mewn amser real, gan gryfhau sicrwydd trwy ddull cytbwys, yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd mabwysiadu'n ehangach yn creu set ddata genedlaethol gyson i gefnogi meincnodi a goruchwyliaeth ariannol, gan wella trefnau lleoli'r gweithlu a galluogi proses amserlennu dryloyw, yn seiliedig ar dystiolaeth ar draws GIG Cymru.

Ar gyfer meysydd y mae Adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) yn berthnasol iddynt, rhaid casglu data aciwtedd cleifion o leiaf ddwywaith y dydd gan ddefnyddio offeryn Lefelau Gofal Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod staffio'n adlewyrchu anghenion cleifion ac yn darparu sylfaen dystiolaeth dryloyw ar gyfer adleoli ac uwchgyfeirio.

Dylid cofnodi digwyddiadau neu ddangosyddion rhybudd o staffio anniogel, gan gynnwys barn broffesiynol, mewn system aciwtedd ddigidol briodol (lle

bo ar gael) a'u hadrodd drwy lwybrau llywodraethu wedi'u diffinio'n glir a nodir yn y polisi amserlennu (neu'r Polisi Staff Nyrsio). Mae defnydd cyson o ddata aciwtedd ac uwchgyfeirio, ynghyd â barn broffesiynol, yn galluogi trefnau rheoli rhagweithiol o risg, llwyth gwaith a dyrannu adnoddau. Mae triongli’r ffynonellau hyn yn sicrhau bod penderfyniadau staffio yn seiliedig ar dystiolaeth, gan gydbwyso data gwrthrychol â mewnwelediad clinigol i gynnal diogelwch a gwneud y mwyaf o leoli’r gweithlu.

Ochr yn ochr â hynny, mae Rhaglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan yn cynllunio gwaith i ddatblygu dangosfyrddau cenedlaethol a fydd yn crynhoi data e-Amserlennu a SafeCare i gefnogi meincnodi, adrodd ar sicrwydd, a dysgu trawsffiniol. Bydd hyn ar gyfer meysydd adran 25B yn y lle cyntaf. Felly mae dangosfyrddau lleol yn chwarae rhan hanfodol wrth wella arferion amserlennu o ddydd i ddydd, gan hefyd gyfrannu at y darlun cenedlaethol er mwyn nodi themâu, rhannu arferion gorau, a llywio gwelliant ar draws GIG Cymru. Gyda'i gilydd, bydd dangosfyrddau lleol a chenedlaethol yn sicrhau dull sy'n seiliedig ar ddata o gefnogi diogelwch cleifion, llesiant staff, a chynllunio’r gweithlu’n ddoeth.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae data aciwtedd amser real yn darparu sail wrthrychol ar gyfer penderfyniadau o ran staffio, gan wella diogelwch cleifion a lleihau dibyniaeth ar farn oddrychol.

### 3. Cymysgedd Sgiliau, Cymhwysedd, a Thegwch Dwyieithog

**Egwyddor: Rhaid i'r broses amserlennu sicrhau cymysgedd sgiliau priodol ar bob shifft a cheisio sicrhau bod yno staff sy’n medru’r Gymraeg cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, gan ddefnyddio e-Amserlennu a data aciwtedd i sicrhau bod cymwyseddau staff yn unol ag anghenion cleifion.**

Mae sicrhau cymysgedd sgiliau priodol, yn enwedig sicrhau bod yno ddigon o Nyrsys Cofrestredig, yn hanfodol ar gyfer diogelwch cleifion ac yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gwell canlyniadau clinigol. Rhaid i'r broses amserlennu ddiogelu presenoldeb Nyrsys Cofrestredig ar bob shifft, yn unol ag aciwtedd a dibyniaeth cleifion. Rhaid i gymwyseddau fod yn weladwy yn y systemau e-Amserlennu er mwyn sicrhau bod lleoli’r gweithlu yn unol ag anghenion cleifion.

Er mwyn cryfhau sicrwydd, dylid cofnodi sgiliau clinigol craidd staff yn y system e-Amserlennu, a dylid hefyd mewnbynnu'r sgiliau clinigol craidd sydd eu hangen ar gyfer pob shifft. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff sydd wedi'u lleoli'r cymwyseddau angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol sy'n diwallu anghenion cleifion a bod sgiliau staff yn ategu'r cymysgedd presennol ar bob shifft.

Dylai pob maes clinigol gynnwys cymysgedd sgiliau, gan gwmpasu rolau, bandiau, profiadau a chymwyseddau, yn rhan o adolygiadau o'r sefydliad staffio ar lefel ward/tîm, a ddylai ddigwydd o leiaf yn flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod cynllunio'r gweithlu yn adlewyrchu anghenion datblygol gwasanaethau ac yn cynnal cydbwysedd priodol o sgiliau ar draws pob tîm.

Rhaid defnyddio'r system e-Amserlennu genedlaethol i gofnodi a dyrannu sifftiau yn seiliedig ar y cymwyseddau gofynnol. Dylid adolygu data cymysgedd sgiliau mewn cyfarfodydd craffu misol i sicrhau bod digon o staff, a bydd data amserlennu a barn broffesiynol yn gefn i hyn.

Dylai'r broses amserlennu hefyd gefnogi darpariaeth ddwyieithog. Dylai hyfedredd yn y Gymraeg ymhlith staff fod yn weladwy yn y proffiliau e-Amserlennu, gan gefnogi rheolwyr i gynllunio ar gyfer darpariaeth ieithyddol, yn enwedig mewn poblogaethau lle mae llawer yn siarad Cymraeg. Mae hyn yn cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg ac yn ceisio sicrhau y gall cleifion gyfathrebu yn eu dewis iaith.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae sicrhau bod cymwyseddau a sgiliau iaith yn unol ag anghenion cleifion yn sicrhau gofal diogel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a chydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg.

## 4. Lleoli'r Gweithlu: Hyblygrwydd, Cydraddoldeb, a Rheoleiddio

**Egwyddor: Rhaid i'r broses amserlennu hyrwyddo tegwch, hyblygrwydd a chydymffurfedd, gan sicrhau bod ceisiadau am sifftiau a phatrymau gwaith yn cael eu rheoli'n dryloyw ac yn unol â safonau cyfreithiol a llesiant ac wedi'u cydbwyso ag anghenion y gwasanaeth.**

Mae hyblygrwydd y broses amserlennu'n chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cadw staff a morâl staff. Rhaid i drefniadau hyblyg weithredu o fewn fframwaith clir a theg er mwyn atal anghydraddoldebau anfwriadol rhwng grwpiau staff. Mae amserlennu dan arweiniad gweithwyr, lle mae gan staff fwy o ddylanwad dros gynllunio patrymau sifftiau, yn enghraifft gadarnhaol o'r dull hwn. Mae'n grymuso timau i gydbwyso anghenion gwasanaeth ag amgylchiadau personol, yn cryfhau ymgysylltiad, ac wedi'i ddangos i wella morâl a chyfraddau cadw staff pan gaiff ei weithredu o fewn paramedrau sefydliadol clir.

Yn unol â Pholisi Gweithio Hyblyg Cymru Gyfan, rhaid i waith craffu ar geisiadau gweithio hyblyg fod yn dryloyw, yn deg a chael ei fonitro'n rheolaidd. Dylai rheolwyr gofnodi a yw ceisiadau'n cael eu darparu, eu darparu'n rhannol, neu eu gwrthod, a rhaid cyfiawnhau'n glir unrhyw achos o ganslo neu newid patrwm yn y tymor byr. Dylid adolygu data mewn cyfarfodydd craffu ar amserlenni er mwyn sicrhau tegwch, nodi tueddiadau, a chefnogi gwneud penderfyniadau cyson ar draws gwasanaethau.

Rhaid i staff gael mecanweithiau clir a hygyrch ar gyfer uwchgyfeirio pryderon ynghylch amserlennu, diogelwch neu lesiant. Dylai sefydliadau ddiffinio gweithdrefnau uwchgyfeirio lleol drwy reolwyr llinell, uwch nyrsys, timau'r gweithlu a phrosesau codi pryderon presennol y sefydliad. Rhaid rhoi gwybod am y llwybrau hyn yn rheolaidd a rhaid iddynt fod ar gael i'r holl staff.

Er mwyn sicrhau bod tegwch yn cael ei asesu'n barhaus, dylai sefydliadau sefydlu mecanweithiau ymgysylltu staff eglur. Gall y rhain gynnwys arolygon rheolaidd ar foddhad â'r broses amserlennu, sesiynau adborth strwythuredig mewn cyfarfodydd tîm, a sianeli adrodd dienw ar gyfer

pryderon. Dylid casglu ac adolygu adborth mewn cyfarfodydd craffu ar amserlenni, gan roi gwybod i staff y camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Mae hyn yn creu dolen dryloyw lle gall staff weld sut mae eu mewnbwn yn dylanwadu ar arfer amserlennu, gan feithrin ymddiriedaeth ac atgyfnerthu tegwch.

Rhaid i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth gynnal fframweithiau tryloyw a theg ar gyfer rheoli ceisiadau am sifftiau, gyda'r prosesau hyn wedi'u diffinio'n glir ym mholisi amserlennu pob sefydliad. Dylai terfynau ceisiadau fod yn gymesur â'r oriau cytundebol a gofynion y gwasanaeth.

Yn ogystal â chydymffurfedd â Rheoliadau Amser Gwaith statudol, rhaid i’r broses amserlennu ystyried yn benodol effaith gronnol sifftiau hir, afreolaidd, neu olynol ar ludded, cyfleoedd i orffwys, ac iechyd staff.

Dylai proses amserlennu sy’n ystyriol o flinder osgoi patrymau y gwyddys eu bod yn cynyddu risg, gan gynnwys diwrnodau hir dro ar ôl tro, diffyg amser rhwng shifftiau, neu shifftiau nos wedi’u clystyru’n ormodol, a dylai cyfarfodydd craffu asesu’r patrymau hyn yn rheolaidd yn rhan o’r agenda llesiant a diogelwch.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae proses amserlennu dryloyw a theg yn cefnogi llesiant, cyfraddau cadw staff a chydymffurfedd â gofynion cyfreithiol, gan gynnal gwydnwch y gwasanaeth.

## 5. Llywodraethu a Goruchwylio

**Egwyddor: Rhaid i reolwyr gynnal proses graffu reolaidd er mwyn darparu goruchwyliaeth glir o berfformiad amserlenni, gan sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth a pholisi, atebolrwydd ariannol, ac arfer teg sy'n cefnogi llesiant staff a gofal diogel.**

Er bod llywodraethu’r broses amserlennu’n cryfhau sicrwydd gweithredol, ei brif bwrpas yw diogelu diogelwch cleifion a lles y gweithlu. Felly rhaid i brosesau craffu flaenoriaethu dangosyddion diogelwch, gan gynnwys niferoedd y nyrsys cofrestredig, digwyddiadau rhybudd, tueddiadau aciwtedd, ac adrodd am eithriadau, gan sicrhau nad yw perfformiad gweithredol yn bwrw’r gofyniad sylfaenol i leoli staff yn ddiogel i’r cysgod. Felly mae llywodraethu effeithiol yn gofyn am ymwybyddiaeth sefyllfaol mewn amser real ac adolygiad ôl-weithredol strwythuredig.

Mae'n hanfodol gwahaniaethu rhwng cydymffurfedd ag amserlenni a threfnau staffio diogel. Nid yw amserlen sy'n cydymffurfio â rheolau sefydliadol neu ofynion contractiol yn sicrhau lefelau staffio diogel. Dim ond drwy driongli data aciwtedd, nifer y nyrsys cofrestredig, barn broffesiynol, a phrosesau uwchgyfeirio y gellir sicrhau trefnau staffio diogel. Mae systemau amserlennu’n rhoi strwythur a gwelededd, ond amodau amser real sy'n pennu diogelwch, nid templedi amserlen yn unig.

Mae cyfarfodydd craffu rheolaidd ar amserlenni yn darparu mecanwaith strwythuredig ar gyfer sicrhau bod cynllunio, lleoli a defnyddio'r gweithlu yn cael eu monitro a’u safoni, ac yn cyd-fynd yn effeithiol â pholisi a deddfwriaeth y sefydliad. Mae cynrychiolaeth o blith nyrsio, cyllid ac

adnoddau dynol, fan leiaf, yn galluogi adolygiad cytbwys o ffactorau clinigol a gweithredol, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan ddealltwriaeth holistaidd o anghenion gwasanaeth, cyllid a llesiant y gweithlu.

Rhaid nodi'r broses ar gyfer y cyfarfodydd hyn ym mholisi amserlennu staff neu Bolisi Staff Nyrsio y sefydliad.

Dylai craffu ar amserlenni fod yn ôl-weithredol ac yn rhagolygol, gan adolygu perfformiad amserlenni yn y gorffennol i sicrhau cydymffurfedd a gwersi a ddysgwyd, a gan hefyd asesu amserlenni yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisi, safonau diogelwch a llesiant y gweithlu cyn eu rhoi ar waith.

Mae craffu ar amserlenni a goruchwylio metrigau'n hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd, gan lywio sicrwydd lleol ac adrodd cenedlaethol presennol drwy Raglen Staff Nyrsio Cymru Gyfan*.* Bydd gwreiddio ystyriaethau cydraddoldeb a thegwch mewn prosesau cymeradwyo amserlenni'n sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg, bod anghenion amrywiol yn cael eu nodi, a bod egwyddorion cynhwysol yn llywio sut mae sifftiau a dyletswyddau'n cael eu neilltuo.

Mae asesu cydymffurfedd â Rheoliadau Amser Gwaith 1998 hefyd yn diogelu llesiant staff, drwy gadarnhau bod cyfnodau gorffwys, dilyniant sifftiau ac oriau gwaith yn deg ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth.

Mae llywodraethu ariannol yn parhau i fod yn elfen allweddol o oruchwyliaeth. Rhaid i'r broses amserlennu lynu wrth egwyddor banc-cyn-asiantaeth, gan sicrhau mai dim ond ar ôl i'r opsiynau adleoli a goramser gael eu hystyried y caiff staff dros dro ac asiantaeth eu defnyddio. Dylid nodi hyn yn glir mewn llwybr uwchgyfeirio diffiniedig ar gyfer mynd i'r afael â bylchau yn yr amserlen a dylid nodi mesurau cynllunio wrth gefn i gynnal lefelau staffio diogel pan fydd heriau'n codi. Rhaid i'r llwybr hwn gynnwys dulliau i gael awdurdodiad uwch cyn defnyddio staff asiantaeth.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae goruchwyliaeth strwythuredig a ffurfiol yn hyrwyddo atebolrwydd, rheolaeth ariannol ac arfer teg, gan sicrhau bod amserlenni'n bodloni safonau diogelwch a pholisi.

### 6. Proses Gyhoeddi: Cymeradwyaeth ac Uniondeb y Gyflogres

**Egwyddor: Rhaid cyhoeddi a chymeradwyo amserlenni mewn modd prydlon a thryloyw, gyda threfnau llywodraethu clir ar gyfer cymeradwyo a chwblhau er mwyn sicrhau tegwch, cywirdeb ac uniondeb ariannol.**

Dylid cyhoeddi amserlenni o leiaf 6 wythnos ymlaen llaw, gan sicrhau bod gan staff ddigon o rybudd i gynllunio eu hymrwymiadau personol, gwella'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a mynd i'r afael yn fwy cadarnhaol â dyletswyddau ar yr amserlen. Mae cyhoeddi amserlenni gydag amser rhagarweiniol rhesymol hefyd yn cefnogi tegwch, tryloywder, a chyflwyno egwyddorion gweithio hyblyg mewn modd cyson ar draws GIG Cymru.

Yr arfer gorau yw cyhoeddi amserlenni 12 wythnos ymlaen llaw. Mae cylch cynllunio hirach yn cryfhau sefydlogrwydd y gweithlu, yn galluogi rhagweld gofynion staffio dros dro yn fwy cywir, ac yn lleihau dibyniaeth y gellir ei hosgoi ar ddefnyddio staff asiantaeth. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i dimau ragweld yn well, yn cefnogi rheoli achosion o absenoldeb yn well, yn gwella trefnau recriwtio a chadw staff, ac yn caniatáu nodi bylchau yn y cymysgedd sgiliau neu risgiau diogelwch yn gynt.

Mae mabwysiadu safon gyhoeddi 12 wythnos yn galluogi gwasanaethau i gynllunio'n rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol, gan helpu i gynnal lefelau staffio diogel, lleihau pwysau gweithredol, a hyrwyddo llesiant staff. Er bod yr isafswm o 6 wythnos yn sicrhau llinell sylfaen gyson ar draws y system, cyhoeddi o fewn 12 wythnos yw'r safon a ffefrir ac a argymhellir lle bynnag y mae cyfluniad gwasanaeth a chydlynu aml-broffesiynol yn caniatáu hynny.

Rhaid i bob amserlen fynd trwy broses gymeradwyo dau gam, sy'n gofyn am gymeradwyaeth weithredol gan y rheolwr amserlennu a chymeradwyaeth bellach gan Uwch Reolwr / Pennaeth yr Adran er mwyn cadarnhau pa mor briodol a diogel yw'r amserlen.

Rhaid cwblhau'r amserlen erbyn diwedd y dydd ar ddydd Llun ar gyfer yr wythnos flaenorol, gan sicrhau cysoniad prydlon rhwng yr oriau ar yr amserlen a'r oriau wedi'u gweithio. Mae angen cymeradwyaeth uwch ar gyfer unrhyw newidiadau ar ôl y broses derfynol. Mae'r broses hon yn diogelu cywirdeb y gyflogres ac yn cryfhau uniondeb ariannol.

Dylid cyfleu canllawiau clir ynghylch yr amserlenni hyn yn rheolaidd i staff a chyfeirio atynt yn benodol ym mholisi amserlennu pob sefydliad. Rhaid monitro cydymffurfedd â'r amserlenni hyn hefyd drwy gyfarfodydd craffu rheolaidd ar amserlenni, gan sicrhau bod terfynau amser cyhoeddi a chymeradwyo yn cael eu bodloni'n gyson a bod unrhyw wyriadau'n cael eu nodi, eu huwchgyfeirio a'u datrys.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae cyhoeddi amserlenni gyda digon o amser paratoi yn hanfodol er mwyn cynnal gweithlu sefydlog, diogel, sy'n ymgysylltu. Mae cylchoedd cynllunio hirach hefyd yn lleihau dibyniaeth ar staffio dros dro munud olaf, yn cryfhau rheolaeth ariannol, ac yn cyfrannu at arferion lleoli mwy cyson a thryloyw ar draws GIG Cymru. Gyda'i gilydd, mae'r manteision hyn yn gwella diogelwch cleifion, yn lleihau risg weithredol, ac yn hyrwyddo gweithlu mwy gwydn a chynaliadwy.

## Casgliad

Mae proses amserlennu effeithiol yn hanfodol er mwyn darparu gofal diogel, cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar draws GIG Cymru. Mae'r egwyddorion cenedlaethol hyn yn pennu'r disgwyliad ar gyfer dull cyson, tryloyw a seiliedig ar dystiolaeth o leoli'r gweithlu, gan sicrhau bod pob amserlen wedi'i llunio wrth ystyried safonau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer cymysgedd sgiliau, lefelau staffio, tegwch, llywodraethu a llesiant. Drwy wreiddio gwybodaeth aciwtedd amser real, barn broffesiynol,

goruchwyliaeth gryfach ac arferion gwaith teg sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, mae sefydliadau mewn gwell sefyllfa i ragweld y galw, cynnal diogelwch a chefnogi staff i ffynnu yn eu rolau.

Bydd mabwysiadu'r egwyddorion hyn yn lleihau amrywiad direswm, yn gwella dibynadwyedd a rhagweladwyedd staffio, ac yn galluogi nodi risg yn gynt. Maent yn cadarnhau pwysigrwydd cyhoeddi amserlenni yn amserol, mecanweithiau craffu cadarn, a chanolbwyntio ar staffio diogel yn hytrach na chydymffurfedd syml. Maent hefyd yn hyrwyddo diwylliant lle mae llesiant, gorffwys, adferiad a thegwch staff yn cael eu cydnabod fel amodau hanfodol ar gyfer darparu gofal o ansawdd uchel.

Wrth i'r seilwaith e-Amserlennu ac aciwtedd ledled Cymru barhau i aeddfedu, mae'r egwyddorion hyn yn darparu'r sylfaen ar gyfer dull system gyfan sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer cynllunio a sicrwydd y gweithlu. Bydd gweithredu cyson yn gwella diogelwch cleifion, yn cryfhau rheolaeth ariannol, yn gwneud y mwyaf o'r gweithlu parhaol ac yn helpu i leihau dibyniaeth y gellir ei hosgoi ar staff dros dro. Yn y pen draw, mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi gweithlu mwy gwydn, sy'n ymgysylltu ac sy'n gynaliadwy, gan alluogi GIG Cymru i ddarparu gofal sy'n ddiogel, yn deg ac yn ymatebol i anghenion unigolion a chymunedau.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol**

Er mwyn sicrhau bod Egwyddorion Amserlennu GIG Cymru yn cael eu gweithredu'n gyson ac er mwyn darparu sail glir a thryloyw ar gyfer sicrwydd, bydd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol canlynol yn cael eu monitro ar draws pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth. Unwaith y bydd y dangosfwrdd e-Amserlennu cenedlaethol ar waith ac yn gwbl weithredol, bydd y metrigau hyn yn cael eu hadrodd yn gyson i alluogi meincnodi, dadansoddi tueddiadau ac uwchgyfeirio lle bo angen.

1. Trefniadau Staffio ac Aciwtedd

Pwrpas: Sicrhau bod amserlenni'n adlewyrchu anghenion cleifion mewn amser real ac yn cydymffurfio â safonau statudol a phroffesiynol.
Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

- Canran y sifftiau sy'n bodloni'r niferoedd gofynnol o Nyrsys Cofrestredig (yn erbyn y sefydliad ac aciwtedd).

2. Defnyddio'r Gweithlu a'i Effeithlonrwydd

Pwrpas: Sicrhau defnydd effeithlon o'r gweithlu parhaol a lleihau dibyniaeth ddiangen ar staff dros dro.
Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

- Cyfran yr oriau ar yr amserlen wedi'u llenwi gan staff parhaol (Nyrsys Cofrestredig a staff cymorth).
- Cyfradd cydymffurfio â'r egwyddor banc-cyn-asiantaeth (dim ond ar ôl i'r opsiynau banc gael eu hystyried y caiff y defnydd o staff asiantaeth ei awdurdodi).
- Defnydd o staff asiantaeth fel canran o gyfanswm yr oriau wedi'u gweithio, a'r gyfran sydd angen awdurdodiad uwch.

3. Ansawdd Amserlennu a Chydymffurfedd â nhw

Pwrpas: Sicrhau bod amserlenni'n cael eu llunio, eu cymeradwyo a'u cyhoeddi yn unol ag egwyddorion cenedlaethol a pholisi sefydliadol.
Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

- Cyhoeddir amserlenni o leiaf 6 wythnos (o leiaf) a 12 wythnos (y safon a ffefrir) ymlaen llaw.
- Cyfran yr amserlenni a gymeradwywyd drwy'r broses lofnodi dau gam.

4. Tegwch, Cyfiawnder a Phrofiad Staff

Pwrpas: Cefnogi arfer teg o ran amserlennu staff, Safonau'r Gymraeg, a llesiant staff.
Dangosyddion Perfformiad Allweddol:

- Cyfran y ceisiadau gweithio hyblyg wedi'u derbyn, eu derbyn yn rhannol neu'u gwrthod, gyda dadansoddiad o dueddiadau dros amser.

- Nifer yr achosion o newid patrwm neu ganslo yn y tymor byr, gan gynnwys categoreiddio'r rhesymau.

- Adborth staff ar degwch, rhagweladwyedd ac effaith llesiant amserlenni (trwy arolwg neu ddolenni adborth).

**Cydnabyddiaethau**

Estynnir cydnabyddiaeth i gydweithwyr a sefydliadau partner a gefnogodd ddatblygiad yr egwyddorion amserlennu hyn. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio, Perfformiad a Gwella GIG Cymru, Arweinwyr Amserlennu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau, Arweinwyr Staff Nyrsio, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a Fforwm Partneriaeth Cymru.

**Cyfeiriadau**

- **Llywodraeth Cymru (2016).** *Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/5
- **Llywodraeth y DU (1998).** *The Working Time Regulations 1998*. Llundain: The Stationery Office. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/uksi/1998/1833/contents
- **Llywodraeth Cymru (2016).** *Sicrhau Iechyd a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gofal iechyd darbodus.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gofal-iechyd-darbodus
- **Polisi Gweithio Hyblyg GIG Cymru Gyfan** (2025)
- **GIG Cymru (2025).** *Rostering Comparative Analysis Report*. Caerdydd: GIG Cymru. [Adroddiad mewnol].
- **Llywodraeth Cymru (2025).** *Uplift and Headroom Review*. Swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio. [Ar y gweill].
- **Llywodraeth Cymru (2023)**. *Fframwaith rheoli Cymru gyfan ar gyfer capasiti gweithlu hyblyg (WHC/2023/046).* Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/fframwaith-rheoli-cymru-gyfan-ar-gyfer-capasiti-gweithlu-hyblyg-whc2023046-html